620

# CAN NEWYDD,

## YN RHODDI HANES DIENYDDIAD
## RICHARD LEWIS,

*Yr hyn a ddygwyddodd y* 13 *o Awst*, 1831, *yn Nghaerdydd, Swydd Forganwg; am y troseddau y cafwyd ef yn euog o'i gwneuthur yn y cynnwrf diweddar yn Merthyr Tydfil.*

---

Cenir ar y "Dôn Fechan."

---

1

HOLL drigolion de a dwyrain,
Gorllewin, gogledd dewch i'r unman,
Rhyw hanes dwys yw hon i'w 'styried,
Yn awr y gwir yn glir gewch glywed.

2

Casglodd naw mil yn lled afrywiog,
I sefyll allan am fwy o gyflog,
Rhai heb waith a'r lleill yn cwynfan
A'r bwyd yn ddryd a chyflog fychan.

3

Trwm yw adrodd am y dychryn,
Yr ail a'r trydydd o Fehefin,
Pan aeth y gweithwyr yn aflonydd,
Bydd rhai mewn galar hîr o'i herwydd.

4

Hwy ddychrynasant rhai o'u gwely,
Gan waeddi codwch, peidiwch oedi,
Ni chewch ch'i lonydd i aros yma,
Dewch bawb i uno gyda'r dyrfa.

5

Hi aeth yn derfysg mawr yn Merthyr,
Gorfod gyru ffwrdd am filwyr,
Pan ddaeth rhai fynu o Abertawe
Fe aeth gwyr Merthyr ffwrdd a'u harfau.

6

Ond fe ddaeth milwyr o Aberhonddu,
Hi aeth yn rhyfel pan ddaeth y rheini,
Ac fe lladdwyd o wyr Merthyr,
Un ar ugain yn y frwydyr.

7

Yr oedd yr olwg drist yn aethlyd,
A'r llais i'w glywed yn ddychrynllyd,
Rhai yn griddfan ac yn gwaeddi,
Yn eu gwaed yn methu a chodi.

8

Rhai wedi tori eu haelodau,
Rhai wedi saethu trwy eu calonau,
Rhai yn glwyfau yn methu symud,
Yno yn griddfan am eu bywyd.

9

Yr oedd dwy o'rhain yn wragedd tirion,
A'r lleill i gyd yn wyr a meibion,
Fe waeddai'r tad mewn clwyfau dygn
Ffarwel, ffarwell fy anwyl blentyn.

10

Yr oedd swn y tadau a'u plant tirion
Yn ddigon i hollti unrhyw galon,
Yn gwaeddi deuwch wrth ymadael,
O dadau a mamau i ganu ffarwel.

11

Swn y gwragedd trwy Ferthyr Tydfil
Oedd am eu gwyr eu priod anwyl,
'Roedd llais y gwr yn galw yn galed
O fy ngwraig a mhlant ymddifaid.

12

Saethwyd benyw yno'n farw,
Yn nrws ei thy, O ddyrnod chwerw,
A lladdwyd un yn mysg y dynion,
Wrth edrych am ei phlentyn tirion.

13

Gwelwyd gwraig, mae'n alar d'wedyd,
Ar y d'wrnod mawr dychrynllyd,
Yn cario corph ei phlentyn hawddgar,
I ffwrdd o'r frwydyr, O'r fath alar.

14

Bu raid i'r mobs i roddi fynu,
A llawer iawn ga'dd eu carcharu,
Pan ddaeth y Sessiwn, er mawr alaeth,
Fe'u barnwyd oll yn ol y gyfraith.

15

Hwy gawsant oll eu bywyd gweddus
I gyd ond un sef Richard Lewis,
Er cymmaint oedd am safio hwnw,
Yn ngrog ar bren efe ga'dd farw.

16

Un mil ar ddeg a mwy o ddynion,
Oedd am ei safio o eigion eu calon,
Er cymmaint geisiau pawb o'u gwirfodd,
Yn y diwedd dim ni lwyddodd.

17

Ca'dd bedwar dydd ar ddeg o amser,
Drwy Squire Price, yr hwn glodforer,
Ac yn y diwedd gorfu fyned,
I rodio'r ffordd nad oes dychweliad.

18

Tra bu ef yn y carchardy,
'R offeiriad oedd yn ei cynghori,
I geisio Crist yn geidwad iddo,
Gobeithiwn i'w gynghorion lwyddo.

19

Y tryddydd dydd ar ddeg i'w enwi,
O Fis Awst, mae'n drist fynegi,
O dan y crogbren fe ga'dd fyned,
A miloedd lawer oedd yn gweled.

20

Cyn iddo ef i gael ei symud
O'r byd hwn i drag'wyddolfyd,
Taer weddiai ar yr Iesu,
Am roi 'ddo ran yngwlad goleuni.

21

Ei wraig ef nawr sydd yn galaru,
Ddydd a nos yn mron gwallgofu,
Wrth feddwl fod ei phriod gwiwlon,
Yn gorfod marw ar y crogbren.

22

Arglwydd, cadw dir Brytaniaid,
A'th gyfraith [illegible]r o fewn pob enaid,
Dy ddeddfau blaner yn ein calon,
Rhag bod ein bywyd yn llaw dynion. R. W.

---

*W. Williams, Argraphydd, Aberhonddu.*